Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Feithrinfa Ddydd Penglais**
**Heol Penglais**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3DU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa Ddydd Penglais yn lleoliad preifat a adeiladwyd yn bwrpasol, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Aberystwyth yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae'n darparu gofal i blant staff a myfyrwyr y brifysgol, yn ogystal â phlant o'r gymuned leol a'r ardaloedd cyfagos. Mae'n ymgynnull bum niwrnod yr wythnos o 8.00 i 18.00 am 39 wythnos y flwyddyn.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru i dderbyn hyd at 73 o blant o'u geni i bedair blwydd oed. Adeg yr arolygiad, roedd saith plentyn yn cael addysg wedi'i hariannu. Mae 18 o aelodau staff wedi eu cyflogi yn y lleoliad, gan gynnwys yr arweinydd, ac mae 5 ohonynt yn gweithio ar sail amser llawn ac 13 ohonynt ar sail ran-amser. Bu arweinydd y lleoliad yn y swydd er Ionawr 2016.

Mae'r lleoliad yn ddwyieithog a chaiff y Gymraeg a'r Saesneg eu siarad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf ac mae ychydig ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan y lleoliad ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Nhachwedd 2015 a chan Estyn ym Mawrth 2013.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
| --- | --- |
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae cynlluniau ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol i blant ddatblygu llawer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol ar draws bron pob maes dysgu
- Mae ymarferwyr wedi datblygu awyrgylch cefnogol ar gyfer dysgu ar sail arferion cyson a disgwyliadau uchel
- Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd plant yn gadarn a manwl, ac yn nodi'r camau nesaf mewn dysgu yn llwyddiannus
- Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd medrus o'r iaith Gymraeg, yn darparu model iaith da ac yn ystyried y Gymraeg yn rhan annatod o'u gwaith
- Yn ddieithriad, mae ymarferwyr yn creu amgylchedd symbylol a hapus ar gyfer dysgu, ac maent yn wybodus am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i helpu'r plant i lwyddo
- Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, yn eu trin â pharch, yn gwerthfawrogi eu hawliau, safbwyntiau a barnau, ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain yn llwyddiannus
- Gwna'r rhan fwyaf o ymarferwyr ddefnydd arloesol o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau llythrennedd digidol plant
- Mae gan bron pob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o sut gallant gyfrannu at godi safonau drwy addysgu'n effeithiol
- Mae'r adeilad, ynghyd â'r tir, o ansawdd eithriadol.  Caiff ei gynnal i safon uchel iawn a'i ddefnyddio'n ddychmygus gan ymarferwyr i ddarparu amgylchedd dysgu symbylol a deniadol dros ben

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu plant i fod yn gyfathrebwyr dwyieithog hyderus a rhugl.  Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n effeithiol â'r holl randdeiliaid
- Mae'r tîm o staff ymrwymedig yn ymwybodol o gryfderau'r lleoliad, yn ogystal â llawer o'r meysydd y mae angen eu datblygu, sy'n darparu cyfeiriad strategol sicr
- Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth dda iawn o'r broses hunanarfarnu ac mae ansawdd cynllunio strategol yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn rhoi sylw cadarn i nodi meysydd i'w gwella

- Gwna'r lleoliad ddefnydd da iawn o gryfderau unigolion ac mae'n caniatáu i arweinwyr ystafelloedd dosbarth a gweithwyr allweddol ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth eu hunain
- Mae gan y lleoliad ystod lwyddiannus o bartneriaid strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol at ymestyn y ddarpariaeth a chodi safonau plant

## Argymhellion

A1 Cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn gynyddol ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod gweithgareddau cynlluniedig yn darparu her briodol i blant mwy abl

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Meithrinfa Ddydd Penglais yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

**Safonau: Amherthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd a safonau plant na datblygu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant perthnasol a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad yn rhy isel i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Amherthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd a safonau plant na datblygu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant perthnasol a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad yn rhy isel i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn darparu ystod eang a chyffrous o brofiadau symbylol ar draws bron pob un o’r meysydd dysgu sy’n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant. Mae cynlluniau dyddiol manwl yr ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol i blant ddatblygu llawer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol. Mae hyn yn galluogi’r rhan fwyaf ohonynt i wneud cynnydd da.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Er enghraifft, mae’r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i greu siapiau dau ddimensiwn wrth goginio bisgedi, yn defnyddio recordyddion digidol i wrando ar gyfarwyddiadau a’u rhoi, ac yn defnyddio mesuriadau safonol i bwyso cynhwysion a mesur pellterau. Fodd bynnag, nid yw cynllunio tymor hir yn ddigon systematig bob tro i sicrhau bod pob un o’r plant yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. Mae mwyafrif yr ymarferwyr yn dechrau cynllunio gweithgareddau priodol sy’n darparu her addas i blant mwy abl a thalentog.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau annibynnol bron pob un o’r plant yn ystod gweithgareddau. Mae ymarferwyr yn annog plant i wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Maent yn cynnwys plant yn llwyddiannus mewn cynlluniau cychwynnol trwy roi cyfleoedd gwerthfawr iddynt greu mapiau meddwl a dewis pa thema sy’n apelio fwyaf iddynt. Caiff plant eu hannog i ddatrys problemau a gwneud dewisiadau’n rheolaidd. Maent yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus mewn ystod eang o weithgareddau, fel coginio, chwarae rôl, tyfu planhigion ac adeiladu adeiladweithiau mawr.

Gwna’r ymarferwyr ddefnydd medrus o’r iaith Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn fodelau iaith da iawn ac yn ystyried y Gymraeg yn rhan annatod o’u gwaith. Mae hyn yn cael effaith fuddiol iawn ar ddatblygu medrau Cymraeg y plant. Mae gan y dimensiwn Cymreig le amlwg yng nghwricwlwm y lleoliad. Mae gweithgareddau fel

cefnogi tîm rygbi Cymru, dathlu Dydd Gŵyl Dewi a chreu cardiau ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen yn cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth y plant o'u diwylliant a'u treftadaeth.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd rhagorol i alluogi plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o draddodiadau gwledydd eraill. Caiff gweithgareddau i ddatblygu parch tuag at ystod o gefndiroedd amlddiwylliannol y plant sy'n mynychu'r lleoliad eu cynllunio'n dda gan yr ymarferwyr. Maent yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn effeithiol mewn sawl iaith wahanol er mwyn bodloni anghenion y plant hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg gartref. Mae datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant y lleoliad. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang mewn cyd-destun Cymreig.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn am arfer y Cyfnod Sylfaen. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd o ansawdd da i blant ddysgu drwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Maent yn defnyddio ystod o dechnegau i ddarparu addysgu effeithiol; er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio cwestiynau penagored priodol a chymorth sensitif i annog plant i weithio'n annibynnol a gwneud penderfyniadau am eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn dda. Maent wedi datblygu awyrgylch dysgu cefnogol ar sail arferion cyson a disgwyliadau uchel. Mae ymarferwyr yn defnyddio gwobrau ac anogaeth yn llwyddiannus i ddatblygu parodrwydd y plant i rannu a chymryd tro.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod amcanion dysgu yn glir ac yn briodol i oedran a gallu'r rhan fwyaf o blant. Maent yn cynnig amgylchedd bywiog a diddorol dan do ac yn gwneud defnydd da o'u hardal awyr agored a'r gymuned leol. Mae ymarferwyr yn dilyn diddordebau'r plant yn gyson ac yn eu hannog i sylwi ar bethau o'u cwmpas sy'n tanio eu chwilfrydedd naturiol ac yn datblygu eu dealltwriaeth, er enghraifft wrth drafod nodweddion crancod a physgod.

Mae'r holl staff yn defnyddio elfennau effeithiol o asesu ar gyfer dysgu yn ystod gweithgareddau. Maent yn cynnig adborth llafar adeiladol ac yn esbonio'n glir beth mae angen i blant ei wneud i wella eu gwaith. Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd plant yn gadarn ac yn fanwl, ac yn nodi'r camau dysgu nesaf yn llwyddiannus. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi cryfhau'r gweithdrefnau hyn i gynnwys asesiadau dyddiol o gyflawniadau pob plentyn. Caiff yr asesiadau hyn eu defnyddio'n bwrpasol i lywio cynllunio yn y dyfodol, ac mae rhieni'n cael arfarniadau ysgrifenedig dyddiol, defnyddiol sy'n rhoi gwybod iddynt am gynnydd eu plentyn.

Mae'r adroddiadau blynyddol sy'n cael eu darparu i rieni o ansawdd da iawn ac yn rhoi gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae iechyd a lles disgyblion yn cael blaenoriaeth uchel. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, yn eu trin â pharch ac yn gwerthfawrogi eu safbwyntiau a’u barn. Trwy arferion dyddiol sydd wedi eu cynllunio’n dda, mae’r plant yn cael eu hannog i fwyta ac yfed byrbrydau iach ac yn cael digon o gyfleoedd i fwynhau’r awyr iach ac ymarfer corff. O ganlyniad, mae gan bron pob un o’r plant ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd ffordd o fyw cytbwys ac iach.

Caiff darpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol plant ei chynllunio’n bwrpasol. Caiff plant eu hannog i aros, rhannu a chymryd tro drwy gydol y sesiwn, ac i ddiolch am eu byrbryd. Mae ymarferwyr yn annog plant i helpu ei gilydd drwy osod y bwrdd ac ysgwyddo’r cyfrifoldeb am glirio, tacluso ac ailgylchu bwyd. Gwna’r lleoliad ddefnydd priodol o’r rheolau a gynigiwyd gan y plant. Mae’r rhain yn rhoi pwyslais ar werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch a chânt eu hyrwyddo’n gyson. Mae hyn yn helpu’r plant i wybod y gwahaniaeth rhwng ymddygiad derbyniol ac annerbyniol, ac yn ategu eu hymwybyddiaeth o fod yn ddinasyddion gofalgar yn llwyddiannus iawn.

Mae gan y lleoliad brosesau cadarn i fodloni anghenion dysgu ychwanegol plant. Mae ymarferwyr yn paratoi cynlluniau addysg unigol manwl ar gyfer y plant hyn, sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd unwaith y tymor â’r holl randdeiliaid. Mae ymarferwyr yn ymateb yn gyflym i anghenion penodol unigolion. Er enghraifft, mae llawer o ymarferwyr hyfforddedig yn darparu cymorth effeithiol i blant ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu ychwanegol.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae amgylcheddol ffisegol y lleoliad yn nodwedd ragorol. Yn ddieithriad, mae ymarferwyr yn creu amgylchedd symbylol ar gyfer dysgu ac maent yn wybodus am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i helpu’r plant i lwyddo. Mae’r lleoliad wedi ei leoli mewn adeilad pwrpasol sy’n darparu ardaloedd eang ag adnoddau da sy’n cyfoethogi addysg plant ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae’r ardaloedd gweithgareddau dan do wedi eu cynllunio’n dda iawn i fanteisio i’r eithaf ar y lle sydd ar gael, a darparu profiadau gwerthfawr i blant yn unol ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r lleoliad yn rhoi sylw a phwyslais eithriadol ar greu amgylchedd diogel sy’n annog plant i gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae hyn i’w weld yn ethos teuluol, cynhwysol y lleoliad, sy’n sicrhau y caiff yr holl blant eu trin yn gyfartal. O ganlyniad, gall pob plentyn fanteisio’n llawn ar y cwricwlwm ac mae ganddynt berthynas glos â’u cyfoedion ac ymarferwyr.

Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau priodol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Gwnânt ddefnydd effeithiol iawn o gyflenwad helaeth o adnoddau symbylol o ansawdd eithriadol o uchel. Gwna’r rhan fwyaf o ymarferwyr ddefnydd arloesol o

adnoddau TGCh i ddatblygu medrau llythrennedd digidol plant. Gwnânt ddefnydd cyson a phwrpasol o'r ardal awyr agored i gyfoethogi gweithgareddau'r ystafell ddosbarth a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae'r ardal hon yn rhan annatod o'r ddarpariaeth a chafodd ei datblygu'n arbennig o dda i sicrhau profiadau gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau corfforol ac ymchwiliol. Er enghraifft, gwna plant ddefnydd rheolaidd o'r fframiau dringo, maent yn archwilio ac yn trafod priodweddau cregyn a cherrig crwn ac yn gweini prydau bwyd dychmygol a goginiwyd yn y gegin fwd.

Mae'r adeilad a'r tir o ansawdd rhagorol a chânt eu cynnal a chadw i safon uchel iawn. Caiff ei ddefnyddio'n ddychmygus gan ymarferwyr i ddarparu amgylchedd symbylol a deniadol iawn ag arddangosiadau lliwgar a chreadigol sy'n dangos parch tuag at waith y plant. Gwna ymarferwyr ddefnydd effeithiol o'r holl ystafelloedd i ddarparu gweithgareddau gwerthfawr sy'n gweddu i oedran a datblygiad y plant, er mwyn cyfoethogi dysgu'r plant a chodi safonau cyflawniad yn gyson.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu plant yn y lleoliad i fod yn gyfathrebwyr hyderus a rhugl, sy'n cael ei rhannu'n effeithiol â'r holl randdeiliaid. Mae'n arwain tîm o staff ymrwymedig yn effeithiol ac yn darparu cyfeiriad strategol clir. O ganlyniad, mae gan y lleoliad ffocws clir ar sefydlu ethos gofalgar a chroesawgar lle mae plant yn hapus ac yn awyddus i ddysgu. Yn yr amser byr ers ei phenodi, mae'r arweinydd wedi sefydlu diwylliant o ddisgwyliadau uchel o'i staff. Yn ddiweddar, mae wedi rhoi gweithdrefnau newydd ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr. Mae'r rhain yn nodi hyfforddiant pwrpasol i fodloni anghenion datblygu unigolion yn ogystal â rhai'r lleoliad. Yn ogystal, mae'r arweinydd wedi cyflwyno system drylwyr ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant, y mae ymarferwyr yn ei defnyddio'n effeithiol i lywio cynllunio yn y dyfodol. O ganlyniad, mae gan bron pob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o sut gallant gyfrannu at godi safonau trwy addysgu effeithiol.

Mae'r ddau ddirprwy arweinydd yn cynorthwyo gwaith yr arweinydd yn effeithiol, yn enwedig wrth fonitro addysgu a chynllunio ymarferwyr eraill. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi sefydlu strwythur arweinyddiaeth sy'n gwneud defnydd da iawn o gryfderau unigolion ac yn galluogi arweinwyr ystafelloedd dosbarth a gweithwyr allweddol i ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth eu hunain. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd a disgwyliadau cytûn yn llwyddiannus ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau beunyddiol yn gydwybodol.

Mae'r arweinydd yn wybodus am berfformiad y lleoliad ac yn ymwybodol o'r cryfderau, yn ogystal â llawer o'r meysydd y mae angen eu datblygu. Mae'n deall ei rôl a'i chyfrifoldebau'n glir a, thrwy gydweithio'n agos â'r pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gynnal y lleoliad yn effeithiol. Mae'r pwyllgor rheoli, sy'n cynnwys aelodau o staff o brifysgol, yn gefnogol iawn o waith y lleoliad. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn darparu her werthfawr, sy'n arwain yn llwyddiannus at godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu. Caiff cyfrifoldebau staff eu diffinio'n glir a chaiff rolau arweinyddiaeth eu rhannu'n effeithiol wrth gynllunio, gweithredu a monitro gwelliannau.

Mae'r lleoliad yn cofleidio mentrau addysgol lleol a chenedlaethol ac yn ymateb yn frwdfrydig i gyfleoedd i ddatblygu a gwella ei ddarpariaeth yn unol â hynny; er enghraifft, caiff strategaethau asesu ar gyfer dysgu eu rhoi ar waith yn dda. Hefyd, mae'r lleoliad yn rhoi sylw craff i ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd o ansawdd uchel i ddatblygu medrau TGCh y plant.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan yr arweinydd wybodaeth drylwyr am berfformiad y lleoliad. Mae ganddi ddealltwriaeth dda iawn o'r broses hunanarfarnu ac mae ansawdd cynllunio strategol yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn rhoi sylw cadarn i nodi meysydd i'w gwella. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth a benodwyd yn ddiweddar yn gweithio'n effeithiol i fonitro gweithgareddau sy'n arwain at welliannau o ran darpariaeth a chodi safonau. Mae'r lleoliad wedi ymateb yn dda iawn i'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol, yn enwedig o ran gwella medrau Cymraeg y plant.

Mae'r arweinydd wedi sefydlu dull hunanarfarnu trylwyr a rhesymegol sy'n gwneud defnydd eithriadol o dystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu. Mae'n herio ymarferwyr yn gyson i arfarnu perfformiad y lleoliad, ac mae wedi sefydlu diwylliant o hunanarfarnu cadarn a gonest y mae'r holl ymarferwyr yn cyfrannu ato. Mae hyn yn un o gryfderau penodol y lleoliad. Caiff y broses hunanarfarnu ei defnyddio'n effeithiol i lunio adroddiad cynhwysfawr sy'n cael ei rannu â'r awdurdod lleol, rhieni ac ymarferwyr. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda, ac mae'n sylfaen gref ar gyfer blaenoriaethu agweddau pwysig i'w gwella. Gwna'r tîm arweinyddiaeth ddefnydd effeithiol o ystod o ffynonellau i arfarnu perfformiad y lleoliad, gan gynnwys arsylwi sesiynau, holiaduron, cymedroli asesiadau, craffu ar waith plant a chynnal arfarniadau o agweddau amrywiol ar feysydd dysgu.

Mae'r lleoliad wedi pennu amserlen wythnosol drylwyr ar gyfer monitro. Mae'r arweinydd yn darparu adroddiadau arfarnol, ysgrifenedig sy'n cael eu rhannu â phob ymarferydd yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff er mwyn trafod agweddau penodol ar berfformiad y lleoliad. O ganlyniad, mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r lleoliad, ac maent wedi datblygu ymwybyddiaeth helaeth o'u rôl mewn cynllunio ar gyfer gwella. Mae'r cysylltiad rhwng yr hunanarfarniad a thargedau yn y cynllun datblygu yn glir. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, yn enwedig o ran cynllunio ac asesu.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos iawn â Phrifysgol Aberystwyth a'r awdurdod lleol i wella arfer dda a manteisio ar hyfforddiant i bob ymarferydd. Gwneir defnydd gwerthfawr o gyfleoedd hyfforddiant ac mae'r lleoliad yn ymateb yn dda i dargedau sy'n cael eu gosod gan yr athro ymgynghorol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn elwa ar yr hyfforddiant y mae staff yn ei gael; er enghraifft, mae'r cwrs a fynychwyd ar hyrwyddo cymhwysedd cymdeithasol ac emosiynol plant wedi arwain at hybu annibyniaeth a hyder plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod lwyddiannus o bartneriaid strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol at ymestyn y ddarpariaeth a chodi safonau'r plant. Mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos iawn â rhieni a gofalwyr er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant a hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae rhieni'n ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i ddarllen storïau i'r plant, yn aml mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Caiff rhieni anogaeth ddefnyddiol i gynorthwyo dysgu gartref trwy ddarllen a chanu gyda'r plant. Cânt adborth llafar ac ysgrifenedig dyddiol ar ddatblygiad eu plant, a gwneir defnydd priodol o hysbysfyrddau ger y fynedfa. Gwna ymarferwyr ddefnydd sylweddol o wefan a chyfryngau cymdeithasol y lleoliad er mwyn sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o weithgareddau'r lleoliad.

Mae perthynas fuddiol iawn yn bodoli rhwng y lleoliad ac athro ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r bartneriaeth hon yn cynnig arweiniad ar ddatblygu medrau ymarferwyr er mwyn codi safonau plant ymhellach, ac yn darparu cymorth ymarferol ar sut i wneud hynny. Yn ogystal, mae'n sicrhau cyngor defnyddiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar drefniadau'r lleoliad ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae'r lleoliad yn chwarae rhan amlwg yn y gymuned leol ac mae ymweliadau gan aelodau'r frigâd dân a'r heddlu yn ategu'r dysgu'n briodol. Hefyd, mae plant yn ymweld â lleoedd amrywiol o gwmpas y dref yn rheolaidd; er enghraifft, mae ymweliadau â'r parc lleol, glan y môr a siopau yn cyfoethogi dull y lleoliad o fynd i'r afael â gwaith thematig yn llwyddiannus. Gwna'r lleoliad ddefnydd da iawn o gyfleusterau chwaraeon cyfagos y Brifysgol ar gyfer gweithgareddau fel gemau datblygu tîm a datrys problemau, yn ogystal â gweithgareddau i ddatblygu medrau pêl plant. Gwna'r gweithgareddau hyn gyfraniad cadarnhaol i gyfoethogi profiadau dysgu plant a'u hymwybyddiaeth o'u hardal leol.

Mae gan y lleoliad drefniadau pontio da i blant symud o un grŵp oedran i'r llall yn y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n briodol i'w hoedran a'r cyfnod yn eu datblygiad.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â phobl eraill i sicrhau cyllid i brynu adnoddau pwrpasol ac i gynnal lefelau staffio.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn rheoli staff ac adnoddau'n effeithiol drwy sicrhau bod gan y lleoliad lefel uchel o staff sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'n defnyddio medrau ymarferwyr unigol yn dda iawn ac yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn effeithiol i fodloni anghenion y rhan fwyaf o blant.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn sicrhau bod arweinwyr yn adnabod anghenion ymarferwyr yn dda, a bod cysylltiad agos rhwng eu targedau nhw a blaenoriaethau'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn trefnu'r gallu i fanteisio ar ystod o hyfforddiant addas yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliant. O ganlyniad, mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth gyfredol am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen. Caiff effaith hyfforddiant ar gyflawniadau plant ei harfarnu'n briodol.

Mae'r arweinydd yn dyrannu cyllid yn briodol yn ôl blaenoriaethau'r lleoliad. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i reoli a monitro ei gyllideb, ac mae'r pwyllgor rheoli yn arfarnu gwariant yn ofalus er mwyn ystyried yr effaith ar safonau a lles plant. Mae'r lleoliad yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol â chymorth cyllid ychwanegol gan Brifysgol Aberystwyth. O ganlyniad, ac o ystyried ansawdd yr addysgu, gofal ac arweiniad, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |